

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Adran Fflyd a Pheirianneg
# Technegydd Cerbydau

Pecyn Gwybodaeth Ymgeisydd



# Croeso gan Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol

Pan fydd pobl yn meddwl am y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu i feddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i alwadau brys. Er bod hyn yn wir, mae'r swyddi a'r cyfrifoldebau o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn mynd yn llawer pellach na'r ddelwedd draddodiadol hon.

Yn ogystal â Diffoddwyr Tân, mae'r Gwasanaeth yn cyflogi pobl mewn nifer o wahanol swyddi amrywiol a heriol, ac mae'r gwaith hollbwysig sy'n cael ei wneud y tu ôl i'r llenni yr un mor hanfodol i helpu i wneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw ynddo, i weithio ynddo ac i ymweld ag ef.

Achub bywydau a lleihau risg sydd wrth wraidd ein cenhadaeth fel Gwasanaeth Tân ac Achub – ac mae ein hadran Fflyd a Pheirianneg yn hollbwysig i'n llwyddiant drwy ddarparu cefnogaeth hanfodol i'r Gwasanaeth. Mae'n sicrhau bod ein holl beiriannau, cerbydau ac offer tân yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddiogel ac yn barod i'w defnyddio gan ein criwiau rheng flaen pan fo angen iddynt ymateb.

Mae ein hadran Fflyd a Pheirianneg yn rhan hanfodol o'r ffordd rydyn ni'n cyflawni ein gweithgareddau dyddiol. Drwy ddarparu'r adnoddau a'r offer ffisegol, mae'r tîm Fflyd a Pheirianneg yn galluogi ein staff i ymgymryd â'u rôl o wneud Gogledd Cymru yn ardal ddiogel i fyw ynddi, gweithio ynddi ac ymweld â hi drwy sicrhau bod y peiriannau a'r offer yn addas i'r pwrpas ac yn ddiogel i'w defnyddio. Mae rôl tîm y Fflyd mewn gwasanaeth brys rheng flaen yn heriol, yn amrywiol ac yn gyffrous ac mae'n ymwneud â thasgau a chyfrifoldebau amrywiol, er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth yn gallu parhau i ddiogelu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Ein gwerthoedd sylfaenol yw ymdrechu tuag at ragoriaeth, gwasanaethu cymunedau Gogledd Cymru a thrin pobl yn dda. Rydym ni eisiau i bobl sydd â'r un gwerthoedd ymuno â'n tîm i'n helpu ni i barhau i wneud Gogledd Cymru yn lle diogel i fyw ynddo, gweithio ynddo ac ymweld ag ef.




# Pwy ydym ni

Yng Ngwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru, ein pwrpas yw Atal, Amddiffyn ac Ymateb. I wneud hyn rydym yn cyflogi mwy na 850 o staff ym maes gweithredol a rolau cefnogi.

Rydym yn helpu i amddiffyn ardal sy'n gorchuddio tua 2,400 milltir sgwâr a poblogaeth breswyl o dros 700,000 o bobl, yn ogystal a channoedd o miloedd o ymwelwyr sy'n teithio i mewn ac allan o Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Ar gyfartaledd, rydyn ni'n mynd i oddeutu 2,000 o danau a 1,000 o argyfyngau heblaw tan megis gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a digwyddiadau llifogydd bob blwyddyn. Rydym hefyd yn mynychu tua 2,000 o alwadau brys sy'n troi allan i fod yn alwadau diangen.

Rydym yn gwneud gwaith atal tan helaeth trwy ymweld a phobl yn eu cartrefi, mynychu digwyddiadau, ymgysylltu a phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda phartneriaid i addysgu a hysbysu cymunedau lleol. Rydym hefyd yn cynnal presenoldeb gweithredol yn y cyfryngau, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae rhan arall o'n gwaith mewn rol gorfodi diogelwch tan, felly rydyn ni'n ymweld busnesau a gweithleoedd i sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol amdan yr adeiladau hynny'n cadw eu trefniadau diogelwch tan i fyny i afon.

Mae Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru yn lle proffesiynol a chyfeillgar i weithio. Rydym yn cynnig diwylliant cefnogol lle rydym yn gweithio'n galed i gynnal ein gwerthoedd craidd.

Gallwch ddarllen mwy am ein Gwerthoedd Craidd ar y dudalen nesaf. I gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth ewch i wefan Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru.



# Ein Gwerthoedd Craidd

**GWNEUD GOGLEDD CYMRU'N LLE MWY DIOGEL I FYW, GWEITHIO AC YMWELD AG O**

## Gwasanaethu'r gymuned

**Mae amddiffyn ein cymunedau'n ganolog i bopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy weithio gyda'n partneriaid a grwpiau eraill i leihau risg a bod yn atebol i'r bobl yr ydym ni'n eu gwasanaethu.

## Ymdrechu dros ragoriaeth

**Rydym ni bob amser yn ymdrechu i wneud ein gorau glas ym mhopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy fod yn arloesol a phen agored, croesawu adborth gan eraill, dysgu o brofiad, cydnabod cryfderau yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer datblygu.

## Pobl

**Rydym ni'n gwerthfawrogi'n gilydd -**

trwy arfer tegwch a pharch, cefnogi datblygiad personol, cydnabod teilyngdod, ymrwymo i onestrwydd, cywirdeb a chyd ymddiriedaeth.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

**Rydym ni'n galluogi pobl i gyrraedd eu llawn botensial waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau -**

trwy werthfawrogi gwahaniaethau, hyrwyddo cyfle cyfartal, herio rhagfarn a chamwahaniaethu.

# Gogledd Cymru: Lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef

O fewn rhanbarth Gogledd Cymru mae Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae gan bob sir rywbeth arbennig i'w gynnig, p'un a ydych chi'n chwilio am gyffro ac antur neu ddiwylliant a threftadaeth. Mae byw a gweithio yng Ngogledd Cymru'n cynnig amgylchedd ardderchog i unrhyw un sy'n ceisio gwell ansawdd bywyd.

Mae gan yr ardal, sy'n cael ei hystyried yn un o'r lleoedd mwyaf prydferth yn y DU, lawer i'w gynnig. Gan ei bod yn ardal o dirwedd eithriadol sy'n amrywio o draethau tywod hir a phentiroedd trawiadol i ddyffrynnoedd cysgodol, rhosydd agored a mynyddoedd garw, mae yma rywbeth i bawb. Mae twristiaeth yn cyfrannu'n helaeth at yr economi leol, gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau ar draws y rhanbarth i ddenu gwahanol ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys llinellau sip cyffrous, parciau antur a chwaraeon dŵr, a theithiau cerdded mwy hamddenol i ddarganfod trefi a chefn gwlad yr ardal neu i ymweld â mannau hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys cestyll.

Mae Gogledd Cymru yn agos at natur ac yn cynnig digon o le awyr agored, ond mae hefyd o fewn cyrraedd i fwrlwm a phrysurdeb trefi a dinasoedd mawr Gogledd-orllewin Lloegr, fel Caer, Lerpwl a Manceinion. Mae'r cysylltiadau rheilffordd hefyd yn cysylltu arfordir Gogledd Cymru â dinasoedd mawr ar draws y DU, gyda threnau uniongyrchol yn mynd i Lundain (o fewn 3 – 4 awr), Birmingham a Manceinion ymysg eraill.

Mae bwyd a diod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru gyda gwyliau bwyd a marchnadoedd yn digwydd ledled y rhanbarth i arddangos y bwydydd a'r diodydd gorau sydd gan Gymru i'w cynnig. Gan ddefnyddio cynnyrch lleol a thymhorol, o bysgod newydd eu dal i gig oen tyner lleol, caws, gwin, cwrw a jin, mae yma ddigonedd o leoedd bwyta at ddant pawb. Mae'r ardal yn cynnig bwytai bwyd cain, tafarndai gastro a bistros yn ogystal â thafarndai cefn gwlad, ystafelloedd te a chaffis.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Gymru boblogaeth o ychydig dros 3.1 miliwn, gyda thua 18% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r Cymry'n angerddol am yr iaith, chwaraeon a diwylliant ac mae cystadlaethau cerddoriaeth, barddoniaeth a chelfyddyd yn digwydd yn flynyddol – sef yr Eisteddfodau. Gwyliau diwylliannol ydyn nhw sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu llwyfan cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth, dawns, llenyddiaeth, celfyddydau gweledol a pherfformio. Er bod y Gymraeg yn rhan bwysig o'r Eisteddfod, mae'r digwyddiadau'n agored i bawb ac felly nid oes rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg i'w mynychu a'i mwynhau. Bydd pobl o bob oed a gallu, a dysgwyr Cymraeg, yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn Eisteddfodau, gydag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn cael ei chynnal bob blwyddyn ar ddechrau Awst. Mae hon yn dod â phobl o bob cwr o'r byd at ei gilydd i ddathlu'r gwahanol ddiwylliannau, cerddoriaeth a chelfyddydau mewn un lle.



# Y Rôl

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mae pawb yn cyfrannu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd i helpu i warchod ein cymunedau a'r amgylchedd naturiol. Mae darparu'r offer a'r cerbydau priodol i'n staff er mwyn iddyn nhw ymgymryd â'u dyletswyddau yn hanfodol er mwyn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth brys a rhagweithiol effeithiol.

Mae'r Adran Fflyd a Pheirianneg wedi'i lleoli yn ein gweithdai Fflyd yng Nghyffordd Llandudno, ond maent yn darparu gwasanaethau cefnogi mecanyddol a pheirianyddol i'n holl orsafoedd tân ledled Gogledd Cymru. Prif gyfrifoldebau'r adran yw cynllunio, prynu, cynnal a chadw ac atgyweirio fflyd y Gwasanaeth o 131 o gerbydau ymateb brys ac 158 o gerbydau cymorth yn ogystal â'r offer cysylltiedig sy'n ofynnol gan wasanaeth tân ac achub, megis ysgolion, offer peirianyddol ac achub sy'n dod i gyfanswm o 2145 o asedau.

Mae'r tîm o dechnegwyr cerbydau hefyd yn darparu gwasanaeth galw-allan brys 24 awr ar gyfer peiriannau wedi torri ac atgyweiriadau brys i sicrhau bod offer a pheiriannau tân rheng flaen ar gael yn barhaus wrth ymateb i ddigwyddiadau brys.

Rydym yn awyddus i benodi Technegydd Cerbydau i ymuno â'n Hadran Fflyd. Mae'r rôl yn gyfrifol am wasanaethu o ddydd i ddydd, gwaith cynnal a chadw ataliol ac wedi ei ragweld ac atgyweiriadau i gerbydau, peiriannau ac offer y gwasanaeth tân i sicrhau bod y rhain yn parhau i fod yn ddiogel ac yn weithredol. Gan gynnal gorsaf waith ddiogel a glân, bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus y gallu i wneud diagnosis o ddiffygion mewn systemau mecanyddol a thrydanol er mwyn penderfynu pa ddulliau atgyweirio effeithiol sydd eu hangen.

Bydd angen i ymgeiswyr ddangos (gyda thystiolaeth) y sgiliau fel y'u hamlinellir yn y disgrifiad swydd a'r fanyleb person, gan gynnwys y gofynion allweddol canlynol:

- Tystysgrif Crefft City and Guilds Lefel 3 mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau Trwm neu gyfwerth.
- Gwybodaeth a phrofiad o weithio mewn amgylchedd cynnal a chadw ac atgyweirio cerbydau masnachol.
- Yn meddu ar drwydded yrru lawn y DU.
- Yn meddu ar drwydded yrru Categori C LGV, neu'n gweithio tuag ato gyda'r gallu i'w gwblhau o fewn y cyfnod prawf.
- Yn meddu ar Dystysgrif Cymhwysedd IRTEC i statws Meistr Dechnegydd neu'n gweithio tuag ato, gyda'r gallu i'w gynnal ar ôl ei gyflawni.
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm ac yn annibynnol gan weithio ar ei liwt eich hun
- Y gallu i reoli eich amser a blaenoriaethu llwyth gwaith, gan fodloni terfynau amser.
- Gallu cynnal sgwrs syml ar Lefel 2 yn y Gymraeg - os nad yw hynny eisoes wedi'i ddangos ar eich ffurflen gais, bydd angen ei gyflawni o fewn cyfnod prawf o 12 mis, gyda chymorth yn cael ei ddarparu fel y bo'n briodol.
- Mae'r penodiad yn amodol ar Wiriad DBS Safonol a geirdaon boddhaol.

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fynychu'r coleg yn wythnosol i gyflawni Tystysgrif Crefft Lefel 3 City and Guilds mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau Trwm  os nad ydynt eisoes yn meddu ar hyn.

# Beth allwn gynnig i chi

## Tâl

Gradd 07 £35,412 i £38,220 y flwyddyn.

## Oriau gwaith

Mae'r swydd hon yn seiliedig ar weithio 37 awr yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Oriau sefydlog, Dydd Llun - Dydd Iau 8am-4pm Dydd Gwener 8am-3.30pm

## Lleoliad gwaith

Mae lleoliad sylfaenol y tîm o fewn yr Adran Fflyd a Pheirianneg sydd wedi'i lleoli yng Nghyffordd Llandudno. Bydd hefyd yn ofynnol i fynychu gwahanol leoliadau a safleoedd y gwasanaeth tân, felly efallai y bydd angen teithio mewn cerbyd Gwasanaeth i leoliadau Gwasanaeth eraill. Bydd hyn i ddechrau gyda gweithiwr arall o Adran y Fflyd.

## Buddion cyflogaeth

- Hawl am Wyliau Blynyddol hael, yn cychwyn ar 25 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal a gwyliau cenedlaethol
- Darperir gwisg Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru
- Mynediad i gyfraniad gweithwyr o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Byddwn yn cynnig hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad i ddatblygu eich potensial
- Cefnogaeth iechyd, ffitrwydd a lles, yn cynnwys iechyd galwedigaethol, cefnogaeth cydweithiwr, hyrwyddwyr iechyd meddwl, therapyddion corfforol a mynediad i gampfeydd y Gwasanaeth
- Ystod o fuddion eraill megis cynllun beicio i'r gwaith a mynediad i bris gostyngol mewn cannoedd o siopau, hamdden a darparwyr gwasanaethau.



# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd** | Technegydd Cerbydau |
| **Adran** | Fflyd |
| **Yn Atebol i** | Goruchwyliwr Gweithdy/Rheolwr Fflyd Cynorthwyol. |

## Diben y Swydd yn Gyffredinol

Bod yn gyfrifol am wasanaethu, atgyweirio a chynnal a chadw cerbydau, peiriannau ac offer o ddydd i ddydd, gan gynnal cryfder y Fflyd 24 awr y dydd, gan weithio fel rhan o dîm o dechnegwyr cerbydau aml-sgiliau.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Yn gyfrifol am wasanaethu, arolygu, cynnal a chadw ac atgyweirio cerbydau'r Gwasanaeth Tân o ddydd i ddydd yn rhagweladwy ac ataliol i'r safon a nodir yng Nghanllaw Arfer Gorau Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ar gyfer cynnal ac arolygu cerbydau GTAGC. Cydymffurfio â'r amseroedd trwsio/ gwasanaethu cydnabyddedig priodol.

2. Cydlynu eich llwyth gwaith eich hun drwy flaenoriaethu tasgau a neilltuwyd o ddydd i ddydd, cysylltu â defnyddwyr cerbydau a chriwiau gorsafoedd, sicrhau bod llwybrau effeithlon yn cael eu cynllunio mewn perthynas ag amser teithio a defnyddio tanwydd i sicrhau eu bod mor gynhyrchiol ac effeithlon â phosibl. Disgwylir i dechnegwyr wneud defnydd effeithlon o'r amser sydd ar gael yn y diwrnod gwaith ac anelu at gyflawni isafswm allbwn gwaith cynhyrchiol o 5.5 awr.

3. Dadansoddi ac atgyweirio diffygion cymhleth mewn Cerbydau Trwm ac Ysgafn yn y systemau canlynol: Systemau mecanyddol, hydrolig, niwmatig, trydanol ac electronig, gan gynnwys graddnodi a rhaglennu cydrannau / ECU yn ôl yr angen.

4. Defnyddio a dehongli llawlyfrau technegol, sgematigau gwifrau a gwybodaeth ddiagnostig i benderfynu ar ddulliau atgyweirio cost ac amser effeithlon i amrywiaeth o gerbydau trwm ac ysgafn a cherbydau môr.

5. Trwsio a chynnal a chadw offer a chyfarpar y gwasanaeth yn unol ag arfer gorau'r gwneuthurwr gan gydymffurfio ag amserlen Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd o Flaen Llaw i fodloni gofynion PUWER/LOLER 98.

6. Cyflawni pob agwedd ar gynnal a chadw ysgolion a gynnau pibellau dŵr y gwasanaeth tân gan gynnwys rhoi gwasanaeth, canfod diffygion, atgyweirio a phrofi cyfnodol.

7. Meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau arbenigol gofynnol i gynnal a chadw ac atgyweirio Offer Achub Hydrolig Pwysedd Uchel a'r holl Systemau Gwaith Diogel o ran Iechyd a Diogelwch cysylltiedig a chynnal y wybodaeth hon. Dadansoddi diffygion ac atgyweirio'r holl offer gwaith mewn modd economaidd gan ystyried y lefelau gofynnol o ansawdd a diogelwch, gan sicrhau bod yr holl atgyweiriadau yn cyrraedd safonau'r diwydiant.

8. Trwsio cyfarpar sydd wedi eu gosod ar gerbydau a gyflenwir gan osodwyr a thrawsnewidyddion trydydd parti. Yn cynnwys Camerâu Cylch Cyfyng, telemateg, terfynellau data symudol a systemau logio data, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

9. Cynnal gwaith atgyweirio / saernïo metel / weldio i strwythurau dur ac aloi gan ddefnyddio offer Weldio, Anwythwr Thermol, Torrwr Plasma, Offer Malu a Thorri gan gynnwys addasiadau fel

y cymeradwyir gan y Rheolwr Fflyd. Diffygion i gynnwys gwydr, stowio, gantri ysgol a chaeadau. I gynnwys saernïo a phaentio is-gydosodiadau yn ôl yr angen.

10. Cynnal asesiadau addasrwydd ffordd o ran diffygion/difrod damweiniau.

11. Llunio adroddiadau manwl sy'n amlinellu'n glir beth yw gweithredol/anweithredol cerbydau o ran gallu mynd i ddigwyddiad, a'r camau a'r cydrannau sy'n ofynnol er mwyn sicrhau gwaith atgyweirio sy'n ariannol economaidd ac i safon

12. Gwaith cynnal a chadw, pan fo angen, ar gerbydau Dimensiynau Newydd a allai gynnwys gwaith cynnal a chadw a phrofi a gynlluniwyd ymlaen llaw, ymrwymiad i allu cynnig gwasanaeth 24 awr ar gyfer peiriannau wedi torri a system gymorth i gydweithio â phersonél mewn lifrai os bydd digwyddiad mawr.

13. Rhaid i ddeilydd y swydd weithredu bob amser yn unol â'r Asesiadau Risg a'r systemau gweithio diogel yn y Gweithdai, Gorsafoedd neu safle digwyddiadau (fel y cyfarwyddir gan benaethiaid safle'r digwyddiad.) Rhaid i'r holl weithgaredd gwaith ddilyn y system waith ddiogel a gyhoeddwyd, dilyn y cyfarwyddiadau gofynnol ar gyfer dillad diogelwch / Offer Gwarchod Personol, a mabwysiadu technegau trin â llaw cymeradwy bob amser fel y'i nodir yn y polisïau a nodir ar gyfer hyfforddiant ymarfer gorau, gweithio ar uchder a gweithio'n unigol.

14. Rhaid cyfleu tasgau a nodwyd fel rhai risg uchel i reolwyr llinell a fydd yn penderfynu a oes angen asesiad risg ysgrifenedig. Rhaid i ddeilydd y swydd bob amser gydnabod yr angen i ddod â gweithgareddau i ben pan nad yw gweithdrefnau diogel bellach yn ddigonol, gan ddod â gwendidau yn y system waith ddiogel i sylw'r Goruchwyliwr cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

15. Rhaid i ddeilydd y swydd gadw trefn dda bob amser er mwyn cyfrannu at weithle ac amgylchedd gwaith cyffredinol diogel a glân  Rhaid iddynt lanhau a chlirio unrhyw ollyngiadau, malurion a rhannau ar unwaith.

16. Rhaid i ddeilydd y swydd sicrhau bod yr holl gynhyrchion gwastraff yn cael eu gwaredu'n llwyr yn y modd cywir ac adrodd i Oruchwyliwr unrhyw faterion amgylcheddol a nodwyd mewn modd lle gellir gwneud gwelliannau parhaus.

17. Cyflawni'r holl gofnodion gwaith yn effeithiol ac yn gywir, gan gofnodi'r holl fanylion a gwybodaeth angenrheidiol ar gyfer cwblhau swydd.

18. Mae'n rhaid i'r llinellau ar gyfer manylion unrhyw waith cynnal a chadw ac atgyweirio gael eu gwneud i safon uchel (rhaid cynnwys canlyniadau profion), gan adlewyrchu'r posibilrwydd y gellir defnyddio cofnodion o'r fath ar gyfer cyrff diogelwch / cyfreithiol allanol i bennu llwybrau archwilio statudol effeithiol, gan anfon unrhyw feysydd sy'n peri pryder, atgyweiriadau rhannol/dros dro, anghenion fydd angen sylw yn y dyfodol neu fethiannau i Oruchwyliwr y Gweithdy.

19. Er mwyn cywirdeb, rhaid diweddaru'r holl gofnodion gwaith/amser yn llawn gan ddefnyddio'r cod gweithgaredd cywir neu bennu rhif gwaith yn unol â Thargedau Rheoli Perfformiad yr Adran. Rhaid cwblhau'r rhain ar ddiwedd pob gweithgaredd, rhaid iddynt fod yn ddarllenadwy a rhaid sicrhau cofnod cywir

20. Casglu adroddiadau manwl er mwyn cynorthwyo gyda chywiro ac ymchwilio i ddiffygion.

21. Sicrhau bod yr holl fanylion am y gwaith yn cael eu cyflwyno i'r goruchwyliwr drwy system reoli'r Fflyd pan fydd gwaith yn cael ei gwblhau. Mae'r swydd yn cynnwys glanhau'r ardal waith a

chwblhau cofnodion gwaith a thaflenni gwasanaeth yn effeithiol cyn symud ymlaen i'r gwaith nesaf.

22. Sicrhau bod yr holl rannau sy'n ofynnol ar gyfer ailgyflenwi'r fan Gwasanaeth yn cael eu trefnu mewn da bryd a bod yr holl archebion uniongyrchol ac eitemau stoc a ddefnyddir yn cael eu prosesu.

23. Sicrhau bod logiau trwsio cerbydau yn cael eu cwblhau'n briodol i ddangos statws diffygion neu weithgareddau atgyweirio i ddefnyddwyr.

24. Pennu gwarantau tymor hir a thymor byr ar gyfer unrhyw rannau newydd a nodi hynny yn ôl yr angen i ganiatáu ad-dalu rhannau o'r fath a chostau llafur.

25. Defnyddio cyfrifiaduron Gliniadur a Llechen gyda phecynnau Microsoft Office i gynhyrchu adroddiadau ysgrifenedig, agor a defnyddio dogfennau PDF er mwyn cyfeirio, agor, dehongli a golygu taenlenni Microsoft Excel, defnyddio E-bost i anfon a derbyn negeseuon gan y tîm rheoli, cydweithwyr a chwmnïau trydydd parti.

26. Bod yn ymwybodol o Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a chydymffurfio â nhw mewn perthynas â'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r swydd.

27. Cyfrifoldeb dros sicrhau diogelwch parhaus cerbyd cynnal a chadw symudol y Gwasanaeth (neu gerbyd arall gan y gwasanaeth) ac offer, teclynnau a stoc cysylltiedig o werth uchel pan fyddant i ffwrdd o Adran y Fflyd bob amser.

28. Cyfrifoldeb dros sicrhau bod rhestr ddigonol yn cael ei chynnal ar gyfer yr holl offer, cyfarpar ac Offer Gwarchod Personol yn eu meddiant

29. Cyfrifoldeb dros sicrhau bod yr holl offer a chyfarpar gwaith sydd mewn meddiant yn cydymffurfio â'r holl bolisïau Iechyd a Diogelwch, Asesiadau Risg, Systemau Gwaith Diogel, Rheoliadau PUWER a LOLER 98 a PAT, gan adrodd am unrhyw ddiffygion neu golledion i'r Goruchwyliwr ar unwaith.

30. Darparu cymorth cynnal a chadw wrth gefn mewn argyfwng fel rhan o system rota.

31. Bydd dau berson ar gael ar alwad ar yr un pryd, yr Alwad Gyntaf er mwyn ymateb ar unwaith i ddiffygion / digwyddiadau o dorri lawr brys, yr Ail Alwad i ddarparu cymorth ychwanegol pan fo angen

32. Darparu gwasanaeth Ar Alwad ar gyfer diffygion oherwydd salwch ac absenoldeb blynyddol

33. Cymryd perchnogaeth nes y bydd unrhyw faterion yn dod i ben drwy gysylltu â Gweithredwyr Rheoli'r Gwasanaeth Tân i wneud penderfyniadau cywir i gynnal cryfder y fflyd. Mynd i weld problemau gyda cherbydau yn yr orsaf, ar ochr y ffordd ac ar safle digwyddiad, gan reoli contractwyr, a/neu drefnu amnewid cerbydau sydd wedi methu gyda cherbydau wrth gefn. Gweithio ar y cyd i sicrhau bod rhywun ar ddyletswydd yn barhaus/ bod cryfder o ran fflyd yn cael ei gynnal

34. Adrodd i'r Rheolwr Fflyd ar Ddyletswydd y Tu Allan i Oriau am gyngor ac arweiniad ynghylch unrhyw sefyllfaoedd y bu ond y dim iddynt ddigwydd/neu ddigwyddiadau diogelwch fel y cânt eu derbyn i sicrhau ymateb priodol a bod yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei chasglu.

35. Pan fydd ar alwad / wrth gefn, rhaid i ddeilydd y swydd sicrhau bod tanwydd yn y cerbyd ar alwad a'i gadw'n lân er mwyn iddo fod yn barod ac yn effeithiol, er mwyn cynnal delwedd y gwasanaeth a hefyd i beidio â difrodi neu guddio'r marciau diogelwch adlewyrchiol.

36. Cynorthwyo, pan elwir arnynt, i ymchwilio i ddigwyddiadau/diffygion/damweiniau y tu allan i oriau gan ymateb a mynd yno ar unwaith.

37. Rhaid adrodd am yr holl weithgareddau y tu allan i oriau a gweithgareddau gwaith a gynhyrchir yn gyntaf i Oruchwyliwr y Gweithdy cyn gweithgareddau'r diwrnod gwaith nesaf.

38. Bod yn rhan o dîm cymorth pan fydd cyfnod o lu o ddigwyddiadau argyfwng. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i staff ychwanegol fod ar gael ar system ddyletswydd wrth gefn a darparu cymorth atgyweirio a chynnal a chadw drwy'r dydd a'r nos i beiriannydd sydd ar ddyletswydd pan fydd llu o argyfyngau wedi eu cadarnhau h.y. tanau coedwigoedd a llifogydd ac ati. Yn aml mae amodau lle mae llu o ddigwyddiadau argyfwng yn codi ar wyliau cyhoeddus a gwyliau ysgol.

39. Darparu a gweithredu bowser tanwydd y gwasanaeth yn unol â chyfarwyddyd y Rheolwr Dyletswydd Tu Allan i Oriau.

40. Rhaid i ddeilydd y swydd sicrhau ei fod yn hyblyg i gwblhau gofynion gwaith rhesymol cyn cwblhau'r diwrnod gwaith: h.y. ni ddylai aelodau staff hawlio na allant fynd i ymweliadau oherwydd bod yr amser cwblhau efallai y tu allan i'r amser gorffen arferol.

41. Ar ôl derbyn 48 awr o rybudd, bydd pob peiriannydd yn ymgymryd â hyd at 16 awr goramser y mis os bydd anghenion y busnes yn gofyn am hynny.

42. Bod yn hyblyg ac yn barod i addasu patrymau gwaith er mwyn cyflawni unrhyw ofynion Rheoli Parhad Busnes.

43. Bod ar gael, pan fo angen, i fynychu cyrsiau hyfforddi a allai fod y tu allan i oriau gwaith arferol ac a allai fod ag angen teithio a llety dros nos.

44. Cwblhau holl Fodiwlau Gorfodol Learn Pro a bod yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf.

45. Hyfforddiant offer arbenigol h.y. Pympiau, Cynnal a Chadw Offer Achub, gweithdrefnau Arolygu Cerbydau Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân/DVSA, Cymhwysedd Proffesiynol IRTEC, Ymgyfarwyddo â Gwneuthurwyr Cerbydau.

46. Gyrru a gweithredu fel y'i hyfforddwyd, amrywiaeth o gerbydau'r Gwasanaeth Tân o geir a faniau bach, i Gerbydau Nwyddau Mawr corff anhyblyg megis Peiriannau Tân a Pheiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr i safon uchel bob amser.

47. Cynnal y categorïau gofynnol ar eu trwydded yrru bob amser.

48. Cynorthwyo gyda symud cerbydau o amgylch ardal y gwasanaeth pan ofynnir iddynt wneud hynny.

49. Efallai y bydd gofyn i ddeilydd y swydd ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol/eraill yn ôl yr angen er mwyn diwallu anghenion y Gwasanaeth.

## Cyfrifoldeb Goruchwylio

Goruchwylio a Chydlynu gweithgareddau staff sifil a gweithredol wrth gynorthwyo gydag ymdrech torri cerbydau ac adfer

Darparu cymorth a hyfforddiant i brentisiaid, gan gynnwys cwblhau unrhyw adroddiadau cynnydd gofynnol a dogfennau cysylltiedig.

Cynorthwyo gyda goruchwylio staff newydd a'u datblygiad mewn perthynas â meysydd arbenigol y swydd.

Goruchwylio contractwyr 3ydd Parti gan sicrhau bod yr holl weithgareddau gwaith yn dilyn Systemau Gwaith Diogel GTAGC a

bod gweithgareddau gwaith o'r fath yn bodloni'r safonau gofynnol disgwyliedig, ac nad ydynt yn peryglu diogelwch a chywirdeb unrhyw systemau sydd wedi'u gosod ar unrhyw Gerbyd neu Ased GTAGC.

Goruchwylio adennill cerbydau i sicrhau bod technegau a ddefnyddir yn cyfyngu ar unrhyw ddifrod a achosir i gerbydau GTAGC neu eiddo cyhoeddus

## Cyfrifoldeb Ariannol

Dim

## Cysylltiadau y tu allan i'w adran ei hun

Cyfathrebu â'r partïon canlynol gyda sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig cryf:

Swyddogion sy'n gyfrifol am orsafoedd tân yn rheolaidd.

Criwiau tân yn rheolaidd o ran ymholiadau nam ar y peiriant.

Gweithredwyr rheoli'r gwasanaeth tân

Contractwyr, cyflenwyr rhannau ac yn anaml aelodau'r cyhoedd.

## Gofynion Iaith

Mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg - Lefel 2 - yn mynnu eich bod yn gallu;

Deall y sgyrsiau'n y gwaith. Ymateb i geisiadau syml sy'n gysylltiedig â swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofynnwch gwestiynau syml a deall atebion syml. Mynegwch farn mewn ffordd gyfyngedig cyn belled â bod y pwnc yn gyfarwydd. Deall cyfarwyddiadau pan ddefnyddir iaith syml. Ysgrifennwch nodiadau/llythyrau/negeseuon byr syml ar ystod gyfyngedig o bynciau rhagweladwy sy'n ymwneud â phrofiadau personol neu faes gwaith eich hun.

## Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

DBS Safonnol

## Hyfforddiant Gorfodol

Modiwlau Gorfodol Learn Pro

Hyfforddiant offer arbenigol h.y. Pympiau, Cynnal a Chadw Offer Achub, gweithdrefnau Arolygu Cerbydau NFCC/DVSA, Cymhwysedd Proffesiynol IRTEC, Ymgyfarwyddo Gwneuthurwr cerbydau

## Arall

Gweithio dan do mewn amgylchedd gweithdy ac yn yr awyr agored. Dan do ac yn yr awyr agored yn ystod ymweliadau gorsafoedd a galwadau allan. Efallai y bydd gofyn i ddeiliad y swydd godi a gweithredu eitemau trwm, bod yn destun baw neu lwch, eithafion tymheredd, gweithio mewn mannau cyfyng a gweithredu ym mhob tywydd.

Cyfrifoldeb holl staff yw diogelu, a disgwylir i bawb fod yn wyliadwrus ac yn rhagweithiol wrth sicrhau diogelwch a lles eraill.

# Gofynion person

| | |
|---|---|
| **Cymwysterau/ Gallu/ Profiad** | **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| | City and Guilds Tystysgrif Crefft Lefel 3 mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau Trwm neu gyfwerth. |
| | Y gallu i ddangos profiad mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau Masnachol aml-wneuthuriad (neu feddu ar y gallu i gyflawni hyn). |
| | Y gallu i ddangos lefel uchel o gymhwysedd mewn canfod a chywiro diffygion diagnostig/trydanol gan ddefnyddio offer diagnostig. |
| | Profiad o ddefnyddio cyfrifiaduron, pecynnau Microsoft Office ar gyfer E-byst, adroddiadau a thaenlenni. |
| | Meddu ar drwydded yrru categori C LGV neu fod â'r gallu i'w chyflawni o fewn y cyfnod prawf o 12 mis. |
| | Profiad o yrru amrywiaeth o gerbydau o geir bach i gerbydau nwyddau mawr neu feddu ar y gallu i gyflawni hyn. |
| | Bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio tuag at gyflawni, ac yna cynnal, statws Tystysgrif Cymhwysedd IRTEC i statws 'Meistr Technegydd'. |
| | Y gallu i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o Iechyd a Diogelwch yn y gwaith gofynion sy'n berthnasol i'r rôl gan gynnwys Asesu Risg, System Waith Ddiogel, Coshh, PUWER/LOLER, Trin â Llaw. |
| | **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy’n bodloni’r holl feini prawf hanfodol |
| | HNC mewn pwnc sy’n gysylltiedig â Cherbydau Modur neu gymhwyster a / neu brofiad cyfatebol. |
| | Cymorth Cyntaf |

| | |
|---|---|
| **Sgiliau** | **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| | Y gallu i ddangos diddordeb ac uchelgais i weithio mewn amgylchedd cynnal a chadw ac atgyweirio cerbydau masnachol. |
| | Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm. |
| | Sgiliau trefnu da. |
| | Y gallu i gwrdd â therfynau amser a gofynion rheoli amser. |
| | Lefel uchel o sgiliau cyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig (sy'n cyfateb i sgiliau allweddol Lefel 3 |
| | Hyblygrwydd er mwyn gweithio y tu allan i oriau gwaith pan fo angen (i gwblhau tasgau a anodwyd). |
| | Meddwl yn gyflym gyda thechnegau datrys problemau ardderchog (Y gallu i weithio'n gywir ac yn effeithlon o dan bwysau gan ddefnyddio technegau datrys problemau rhagorol) |
| | **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol |
| | Gwybodaeth am Ardal Gogledd Cymru a lleoliadau gorsafoedd |

| | |
|---|---|
| **Gofynion perthnasol eraill** | **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| | Arddangos agwedd "gallu gwneud" tuag at y rôl, a pharodrwydd i ddod o hyd i ateb yn wyneb amrywiaeth eang o broblemau technegol a daearyddol |
| | Dangos agwedd broffesiynol bob amser |
| | Lefel dda o ymddangosiad personol fel sy'n rhesymol ymarferol ar gyfer y rôl. |

*Gofynnir am dystiolaeth o gymwysterau a'u gwirio cyn cadarnhau penodiad

**Nodwch: Er mwyn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer y swydd hon bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol**

# Sgiliau yn yr Iaith Gymraeg

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, rydym yn credu y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni wedi cymryd y mater o iaith o ddifrif dros flynyddoedd lawer. Drwy gydnabod ein dyletswyddau moesol a chyfreithiol i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal ac i fodloni disgwyliadau'r gymuned leol, rydym yn cydnabod y manteision cadarnhaol i'r gwasanaeth hefyd o gynnal ein busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith. Mae achub bywydau a lleihau risg wrth wraidd ein cenhadaeth – ac mae iaith yn hanfodol i'w lwyddiant.

Mae gofyniad Cymraeg y swydd hon yn lefel 2 ac mae'r sgiliau gofynnol wedi'u nodi isod.

| Maes Sgil | Gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg |
|---|---|
| **Gwrando / siarad** | ▪ Ddeall rhan helaeth o sgwrs yn y gwaith.<br>▪ Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â'r gwaith a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall atebion.<br>▪ Rhoi barn mewn modd cyfyngedig, cyn belled â bod y testun yn gyfarwydd.<br>▪ Deall cyfarwyddiadau pan fo iaith syml yn cael ei defnyddio. |

Bydd asesiad byr Cymraeg yn cael ei wneud ar gychwyn eich cyflogaeth ac yna bydd ymgeiswyr sydd is na'r gofyniad o lefel 2 Cymraeg yn cael 12 mis ar ôl eu penodiad i cyflawni hyn.

Rydym yn cydweld bod dysgu iaith yn cymryd amser a bydd yn ymrwymiad ar ben eich rôl a byddwn yn eich cefnogi yn y broses.



# Sut i ymgeisio

Mae'r ffurflenni cais i'w gweld ar wefan y Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru ac fe ddylid dychwelyd y Ffurflenni Cais ar e-bost i recruitment@tangogleddcymru.llyw.cymru neu drwy gysylltu a'r Tim Recriwtio ar 01745 535281.

Gofynnir i chi beidio danfon eich CV gyda'r Ffurflen Gais gan mai dim ond y wybodaeth a roddir ar y Ffurflen Gais fydd yn cael ei ddefnyddio wrth greu rhestr fer.

Pan fyddwch yn cwblhau eich cais, gofynnir i chi ymgyfarwyddo gyda'r Disgrifiad Swydd a'r Manylion Person yn y pecyn gwybodaeth yma fel eich bod yn deall y gofynion ynglŷn a chymwysterau, sgiliau a phriodoleddau hanfodol ar gyfer y rôl. Bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol sydd ym manyleb y person er mwyn cyrraedd y rhestr fer yn y cam nesaf. Mae eich cyfle o fod ar y rhestr fer am gyfweliad yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwch ar eich ffurflen gais.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod i ni mewn da bryd os hoffech chi i ni wneud unrhyw addasiadau rhesymol i chi.

Sicrhewch eich bod yn anfon eich cais cyn y dyddiad cau gan nad yw ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.

Os oes ydych yn cael unrhyw broblem cael gafael ar y ffurflen gais neu ei chwblhau, cysylltwch â'r tîm Recriwtio: recruitment@northwalesfire.gov.wales neu ffoniwch 01745 535 281.

## Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn a'r rôl hon neu os hoffech sgwrs anffurfiol cyn ymgeisio, mae croeso i chi gysylltu a Stuart Austin, Goruchwyliwr Fflyd a Pheirianneg ar 01492 562 318.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cau** | **12:00 ar 01/09/25** |

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service